

# AcademiWales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Adroddiad Blynyddol 2020-21



Un Gwasanaeth  
Cyhoeddus Cymru



One Welsh  
Public Service

#UnGwasanaethCyhoeddusCymru

# Cynnwys

Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol 2020-21. Fe'i hysgrifennwyd fel llinell amser sy'n tynnu sylw at ein prif lwyddiannau ar draws pob cyfnod o dri mis.

Trosolwg y Cyfarwyddwr	3
Ebrill – Mehefin 2020	7
Gorffennaf – Medi 2020	11
Hydref – Rhagfyr 2020	13
Ionawr – Mawrth 2021	16

Gallwch ddysgu mwy amdanon ni, y gwaith rydyn ni'n ei wneud, gyda phwy rydyn ni'n gweithio a'n gwerthoedd trwy ymweld â'n gwefan:

[gov.wales/academiwales](http://gov.wales/academiwales)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Dyluniad y clawr gan Niki Bedford, Academi Wales

# Trosolwg y Cyfarwyddwr

## Paul Schanzer, Cyfarwyddwr, Academi Wales



Bu 2020/2021 yn un o'r blynyddoedd mwyaf heriol yn hanes Academi Wales.

Aeth y wlad i mewn i gyfnod clo ym mis Mawrth 2020, gyda staff yn gweithio'n gyfan gwbl o gartref a'n gweithgaredd rhaglen a oedd hyd at y pwynt hwn wedi'i gyflawni wyneb yn wyneb yn cael ei ailgynllunio ar gyfer ei rith-gyflenwi.

Heriwyd y tîm ymhellach gyda rhai staff yn cael eu hadleoli i gefnogi gweithgareddau â blaenoriaeth o fewn Llywodraeth Cymru a'r 30% o swyddi gwag ar draws y Tîm, gyda chyfle cyfyngedig i recriwtio i'r swyddi hyn.

Yn yr amgylchedd gweithredu hwn sy'n pricio'r meddwl (efallai!) addasodd tîm Academi Wales lawer o'n rhaglenni a'n digwyddiadau allweddol i'w cyflwyno ar-lein, gydag ymarferwyr yn uwchsgilio i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu haddasu i ddarparu'r profiad dysgu rhithwir gorau posibl i gyfranogwyr.


Fel y gwelwch o'r Adroddiad Blynyddol roedd Tîm Academi Wales yn llwyddiannus wrth addasu a darparu amrywiaeth o raglenni a digwyddiadau yn rhithwir i gefnogi rheolwyr ac arweinwyr ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn eu datblygiad parhaus.

Mae ein model cyflwyno rhithwir wedi bod yn llwyddiannus ac wrth i ni ddod allan o'r pandemig bydd Academi Wales yn cynnig y ddau opsiwn cyflwyno, yn ffisegol ac yn rhithwir, i sicrhau mynediad cynyddol i'n rhaglenni a digwyddiadau gyda graddfa a lledaeniad cynyddol ledled Cymru.



## Ebrill – Mehefin 2020

Dechreuodd y chwarter cyntaf gydag adolygiad o'n cynllun cyflenwi blynyddol i adnabod y rhaglenni a'r digwyddiadau y gellid eu haddasu ar gyfer eu cyflwyno'n rhithwir er mwyn sicrhau'r mynediad a'r effaith fwyaf posibl o ystyried yr adnoddau a'r gallu cyfyngedig sydd ar gael. Un o'r heriau mwyaf oedd addasu ein Hysgol Haf Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan flynyddol i'w darparu'n rhithwir. Mewn llai na 6 wythnos roedd y tîm wedi cynllunio fformat newydd, wedi ymgysylltu â siaradwyr ac wedi addasu'r rhaglen ar gyfer ei chyflwyno'n rhithwir gan ddefnyddio MS Teams. Roedd y digwyddiad hwn yn hynod llwyddiannus gyda dros 1,500 o gynrychiolwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus, trydydd sector a'r sector gwirfoddol yn cyrchu'r rhaglen yn ystod yr wythnos a mwy na 10,000 o ymweliadau â gwefan Academi Wales.



## Gorffennaf – Medi 2020

Defnyddiwyd misoedd yr haf i loywi ein sgiliau ymhellach wrth addasu llawer o'n rhaglenni a'n gweithdai ar gyfer eu cyflwyno'n rhithwir. Roedd hyn yn cynnwys nifer o'n hymarferwyr yn ymgymryd â rhaglen hyfforddi achrededig i ddod yn hwyluswyr ar-lein ardystiedig. Ym mis Awst graddiodd y garfan gyntaf yn llwyddiannus o'r Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan: Rhaglen i Raddedigion a phob un o'r 16 yn ymgymryd â swyddi newydd yn sector cyhoeddus Cymru, ac ar ran Tîm Academi Wales hoffwn ddymuno pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol. Yn y chwarter hwn lansiodd nifer o weithdai a rhaglenni wedi'u haddasu i'w cyflwyno ar-lein gan gynnwys Esblygiad Gwelliant Parhaus: Ble nesaf o ystyried COVID 19? Dechreuodd digwyddiad Dysgu a Rhannu, gweithdy Byrddau Iach a modiwl cyntaf y rhaglen Darpar Gyfarwyddwyr yn dda gan helpu arweinwyr i ddeall effaith Dynameg Grŵp a'i gymhwyso yn y gweithle i wella perfformiad ac effeithiolrwydd tîm.



## Hydref – Rhagfyr 2020

Ym mis Hydref lansiodd y gweithgaredd ymgysylltu i chwilio am sefydliadau sy'n lletya ar draws sectorau cyhoeddus a thrydydd sector yng Nghymru i gefnogi'r ail garfan ar Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan: Rhaglen i Raddedigion 2022. Cynhaliodd Academi Wales Gynhadledd Hyfforddi rithwir gyntaf Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan ym mis Tachwedd gan ddenu 250 o gynrychiolwyr o dros 90 o sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector yng Nghymru. Roedd y rhaglen yn cynnig cyfle i gynrychiolwyr ddatblygu eu sgiliau a'u technegau gydag offer ymarferol y gellir eu defnyddio ar gyfer twf personol sydd wedi'u cynllunio i gefnogi datblygiad y rhai sy'n cael eu hyfforddi a/neu eu mentora. Yn ystod y cyfnod hwn lansiodd sawl rhaglen gyffrous yn Academi Wales, gan gynnwys y rhain; Cymunedau Arloesi Economi Gylchol, Menopos yn y Gweithle a digwyddiadau Gwerth, Dryswch, Dysgu a Rhannu; Arwain mewn Gwlad Ddwieithog, 7 Arfer Pobl Hynod Effeithiol, Adeiladu Perthynas Effeithiol, Ymddiriedaeth, Arwain ar Iâ, Seicoleg Gadarnhaol a gweithdai Gwybodaeth Emosiynol; Rhaglen Sefydlu Rhithwir Aelodau Bwrdd Annibynnol ar gyfer GIG Cymru.



## Ionawr – Mawrth 2021

Ym mis Ionawr croesawodd Academi Wales Dr Margaret Wheatley i hwyluso'r rhaglen ar-lein gyntaf 'Warriors for the Human Spirit', a gynlluniwyd i gefnogi arweinwyr i ddatblygu set newydd o sgiliau gan gynnwys lefel o feistrolaeth bersonol i arwain gyda mewnwleidiad a thosturi hyd yn oed wrth i bethau ddod yn fwy ansicr ac ofnus. Ym mis Chwefror, cyflwynwyd ein Hysgol Aeaf Arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan flynyddol yn llwyddiannus. Cyflwynwyd y digwyddiad hwn yn rhithwir am y tro cyntaf yn hanes 10 mlynedd y digwyddiad hwn. Wedi'i gynllunio i gefnogi Arweinwyr sy'n gweithio yn y tair haen uchaf o arweinyddiaeth ar draws sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a gwirfoddol Cymru, rhoddodd y rhaglen gyfle i gynrychiolwyr ganolbwyntio ar ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a beth mae hyn yn ei olygu o ran arweinyddiaeth argyfwng a newid.


Hwylusodd y Tîm Datblygu Arweinyddiaeth a Newid Melin Drafod Strategol Bydwreigiaeth Cymru Gyfan yn rhithwir ym mis Chwefror gan ddod ag uwch arweinwyr clinigol a gweithwyr proffesiynol ynghyd o fyrddau iechyd, y byd academiaidd, Llywodraeth Cymru a Choleg Brenhinol y Bydwreigedd i ddarparu 'sbringfwrdd' i drafod a rhagweld dyfodol gofal mamolaeth a gwasanaethau bydwreigiaeth yng Nghymru.

Ym mis Mawrth hwylusodd y Tîm Llywodraethu ac Arweinyddiaeth y Bwrdd mewn partneriaeth ag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru a chydweithwyr GIG Cymru raglen sefydlu ar gyfer Bwrdd Digidol a Gofal Iechyd Cymru sydd newydd ei sefydlu a gynlluniwyd i'w galluogi i fodloni heriau penodol eu rolau wrth gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer GIG Cymru fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae tîm Academi Wales wedi cyflawni cryn dipyn o dan amgylchiadau hynod heriol. Rydym wedi dysgu llawer am sut i weithredu'n effeithiol wrth weithio o bell, rydym wedi addasu ein rhaglen waith flynyddol ar gyfer ei rhith-gyflenwi ac wedi parhau i gefnogi arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus Cymru i ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion yn ystod un o'r blynyddoedd anoddaf ar ôl y rhyfel. Rwy'n hynod falch o bopeth y mae tîm Academi Wales wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac edrychaf i'r dyfodol gydag optimistaeth a gobaith go iawn.

# Cipolwg ar ein blwyddyn

Cyllideb  
£659k



Cost gyfartalog

i'w gyflawni yn cyfateb i

£161.44


fesul  
cynrychiolydd



61% o gynnydd  
mewn  
defnyddwyr  
yn cofrestru ar ein  
gwefan



8% o gynnydd mewn  
edrychiadau  
ar draws pob un o'n  
tudalennau gwe



o weithdai



o ddigwyddiadau,  
cyrsgiau a  
chynadleddau

Gwnaethom gyflawni



6,584

o ddilynwyr Twitter, a



6,193

o danysgrifwyr i'n  
Bwletin Cyfleoedd

28,691

o bobl wedi gwyllo  
ein fideos YouTube

Dyna gyfanswm  
amcangyfrifedig  
o amser gwyllo o

5,200 awr!

 YouTube  
sianel

# Ebrill – Mehefin 2020

## Tîm Talent ac Olyniaeth Ysgol Haf rithwir Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan 2020



Yn dathlu ei 15fed flwyddyn ac uchafbwynt ar galendr blynyddol gweithgareddau Academi Wales, llwyddodd y tîm Talent ac Olyniaeth i lwyfannu a chyflwyno **Ysgol Haf Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan 2020** a gynhaliwyd rhwng 22-26 Mehefin 2020.


Cynlluniwyd yr Ysgol Haf fel profiad dysgu preswyl dwys, gan ddod ag arweinwyr a rheolwyr ynghyd i helpu i feithrin gwybodaeth a sgiliau'r rhai sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus i wneud y defnydd gorau o adnoddau a chael mewnwelediadau i arfer arweinyddiaeth, i ddiwallu anghenion dinasyddion Cymru yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

Mewn ymateb i argyfwng COVID-19, gwnaethom gydnabod yn gyflym bod angen cyflwyno Ysgol Haf o hyd, ynghyd â sylweddoli bod angen i ni wneud pethau'n wahanol! Manteisiwyd ar y cyfle i ddatblygu'r Ysgol Haf rithwir gyntaf erioed. Gwnaethom gloddio i'n harchifau helaeth ac ailddarganfod cyfoeth o brif siaradwyr talentog ac ysbrydoledig o ddigwyddiadau'r gorffennol. Gan adnabod y rhai â'r maes pwnc perthnasol, gwnaethom greu Ysgol Haf wedi'i chynllunio i gefnogi ein hanghenion arweinyddiaeth a dysgu mewn cyfnod gwirioneddol ddigynsail.

Y thema ar gyfer Ysgol Haf 2020 oedd **Taflu Goleuni ar Ansicrwydd – Heriau Newydd, Cyfleoedd Newydd**. Roedd y rhaglen ddyddiol yn cynnwys sesiynau byw a sesiynau wedi'u recordio ymlaen llaw, pob un wedi'u cyflwyno gan aelod o Fwrdd Cynghori Academi Wales.

Roeddem wrth ein bodd gyda'r ymateb ac er bod yr Ysgol Haf bob amser yn cael croeso cynnes, roedd y digwyddiad Rhithwir yn rhagori ar ein disgwyliadau. Cafodd tudalen we'r Ysgol Haf 5,000 o ymweliadau ar y diwrnod cyntaf a mwy na 2,000 o ymweliadau bob dydd wedi hynny.

Gwrandawodd y cyfranogwyr ar lu o siaradwyr ysbrydoledig o fri rhyngwladol gan gynnwys Thimon de Jong, Yr Athro Keith Grint, Richard Varey, Dr Margaret Heffernan, Sharon Turnbull a llawer mwy. Cafodd cyfranogwyr gyfle i ymuno â dau ddigwyddiad dosbarth meistr rhithwir byw, gyda Julie James AoS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ac Amy Brann o Synaptic Potential.



Thimon de Jong



Yr Athro  
Keith Grint



Richard Varey



Dr Margaret  
Heffernan



Sharon Turnbull



Julie James AS



Amy Brann



Denodd yr Ysgol Haf Rithwir lawer o ddiddordeb ar gyfryngau cymdeithasol, gyda'n prif drydariadau yn denu dros 3,000 edrychiad. Ymhlith sylwadau'r cyfranogwyr oedd:

*"Sesiynau gwych hyd yn hyn gyda'r #AWSummerSchool. Mae'r ysgol haf rithwir hon yn dangos pa mor wych mae modd addasu i'r amgylchiadau anodd y mae'r pandemig wedi'u cyflwyno."*

*"Dyma'r adeg honno o'r flwyddyn pan ddaw fy ffrwd yn llawn o lawenydd yr Ysgol Haf! Ac yn ôl fy ffrwd, mae'n cael effaith fawr – yn rhithiol. Ymdrech anhygoel i'w chyflawni gan y tîm. Y flwyddyn nesaf, Ysgol Haf Fyd-eang?!?!?"*

*"Rwy'n mwynhau Ysgol Haf 2020 yn fawr ac rwy'n bwriadu gwyllo gwahanol sesiynau blaenorol a gyflwynwyd mewn digwyddiadau blaenorol. Mae hwn wedi bod yn adnodd dysgu rhagorol y byddaf hefyd yn ei rannu gyda fy nhîm a chydweithwyr eraill."*

## Tîm Rhaglen Graddedigion Cymru Gyfan



*Lluniau o ddiwrnodau Sefydlu Graddedigion yn 2018 ac ym modiwl MSc y Graddedigion*

Mae'r Tîm Graddedigion wedi parhau i addasu a rheoli cyflwyno'r elfennau rhaglen sy'n weddill ac i gefnogi graddedigion o fewn eu rolau. Mae hyn

wedi golygu bod rolau rhai o'r graddedigion wedi gorfod cael eu hailddynodi gan sefydliadau sy'n lletya yn unol â dyletswyddau/amcanion â blaenoriaeth i helpu i gefnogi ymateb brys COVID-19. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys adleoli i'r Uned Gweithrediadau Brys, cefnogi dosbarthu PPE a chyfleusterau profi a gweithio ar lwyfannau digidol newydd.

Mae'r cyfnod anodd hwn wedi rhoi cyfle i raddedigion ddatblygu eu sgiliau arwain ac wedi cyflwyno cyfleoedd newydd i fod yn ymaddasol.

Ym mis Mai a mis Mehefin 2020, cwblhaodd y graddedigion ddwy **sesiwn Datblygu Gyrfa Rithwir** yn llwyddiannus. Helpodd y gweithdai hyn i gynllunio ar gyfer eu gyrfa yn y dyfodol, a oedd yn cynnwys meysydd fel Brand Personol; eu presenoldeb ar-lein; edrych ar dystiolaeth yn seiliedig ar eu cryfderau a sut i reoli eu llesiant.

## Tîm Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan

Datblygodd tîm AWCIC fersiynau rithwir o'u digwyddiadau **Cymuned Dysgu a Rhannu Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan** sy'n fythol boblogaidd. Roedd y sesiwn rithwir gyntaf o'r enw **Pam Trafod y Menopos yn y Gwaith?** yn llawn ac fe'i cyflwynwyd yn effeithiol, a thrwy hynny rhoddodd brototeip profedig i ni ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

Dechreuodd y tîm gasglu Astudiaethau Achos Rheoli Argyfyngau a chynnal trafodaethau cychwynnol gydag Archwilio Cymru a'r Gwasanaeth Sifil Lleol i ystyried mecanweithiau ar gyfer adnabod a lledaenu enghreifftiau o welliannau ymarferol ac effeithiol sydd wedi digwydd o ganlyniad i effaith COVID-19.

Ataliwyd darpariaeth hyfforddiant Ymarferwyr CI ym mis Mawrth oherwydd y cyfnod clo a chyrsgau yn y dyfodol wedi'u canslo hyd y gellir rhagweld. Byddai cynrychiolwyr a oedd wedi cwblhau'r Cwrs Ymarferydd CI wedi cyflwyno eu prosiectau yn fyw i gynrychiolwyr eraill ac asesydd prosiect Academi Wales. Roedd yn rhaid i fynychwyr gwaith cwrs Ymarferydd CI ymgymryd â dysgu newydd a gweithredu'r offer a'r technegau yn eu sefydliad eu hunain, gan arwain at well effeithlonrwydd ac



o bosibl ryddhau capasiti. I gydnabod y gwaith caled hwn, cynhaliwyd nifer o gyflwyniadau ar-lein mewn grŵp rhithwir i ganiatáu i'r ymarferwyr dderbyn cydnabyddiaeth o gwblhau cwrs a derbyn eu hardystiad.

## Tîm Datblygu Arweinyddiaeth a Newid

Cafodd y cyfnod clo effaith enfawr ar Academi Wales, gyda gweithgareddau wyneb yn wyneb ddim yn opsiwn mwyach. Cafodd ein model cyflenwi arferol ei droi wyneb i waered. Wrth i sefydliadau addasu'n gyflym i'r ffyrdd gofynnol newydd o weithio, daeth rhan enfawr o'n ffocws ar arweinyddiaeth i ymwneud â llesiant gweithwyr wrth i bobl addasu i weithio o bell mewn argyfwng cenedlaethol. I adlewyrchu hyn, fel rhan o ymateb Academi Wales i'r pandemig, dechreuwyd cynnal sesiynau ar-lein wythnosol ar **Ymwybyddiaeth Ofalgar** a **Seicoleg Gadarnhaol**, y ddau yn offeryn defnyddiol o ran cynnal ein llesiant. Profodd y sesiynau hyn i fod yn boblogaidd iawn gan gyrraedd cannoedd o weision cyhoeddus trwy gydol misoedd agoriadol y pandemig.

Wrth i Academi Wales addasu i ffordd hollol newydd o weithio mewn amgylchedd rhithwir yn unig, roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig inni ddod o hyd i ffyrdd y gallwn barhau i wneud yr hyn a wnawn yn y ffordd orau bosibl. Er mwyn bodloni'r heriau a'r cyfleoedd a gyflwynodd COVID-19 ynghylch darparu dysg a datblygu arweinyddiaeth, cofrestrodd aelodau o Academi Wales ar gwrs ar-lein byw i ddod yn **Hwyluswyr Dysgu Ar-lein Ardystiedig**. Gyda hyfforddiant achrededig a ddarperir gan y Sefydliad Dysgu a Pherfformiad (LPI), mae'r staff hyn eisoes yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf a'r sgiliau arfer gorau i drefnu a darparu profiadau dysgu ar-lein yn effeithiol ar gyfer staff y sector cyhoeddus ledled Cymru.

## Tîm Llywodraethu ac Arweinyddiaeth y Bwrdd

Cynhaliodd y tîm Llywodraethu ac Arweinyddiaeth y Bwrdd raglen **Dau ar y Brig** ar gyfer uwch arweinwyr Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r rhaglen Dau ar y Brig, sydd wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr, wedi'i chynllunio i gynorthwyo sefydliadau i weithio ar y cyd ar faterion gwasanaeth critigol yn ogystal â gwella perthnasoedd er mwyn sicrhau newid sylweddol mewn perfformiad effeithiolrwydd sefydliadol.

Mae'r Tîm wedi cefnogi nifer o geisiadau gan arweinwyr Lefel Gweithredol a Bwrdd gyda chefnogaeth hyfforddi. Er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn mae Academi Wales yn tynnu ar brofiad ac arbenigedd ymarferwyr o bob rhan o'r DU sydd wedi dal rolau arwain uwch yn y sector cyhoeddus ac sydd â'r cymwysterau/profiadau perthnasol i ddarparu hyfforddiant er mwyn cefnogi uwch arweinwyr gyda'u datblygiad personol a phroffesiynol.

Isod mae tystebau gan uwch arweinwyr sydd wedi cyrchu cymorth hyfforddi:

*'Cefnogodd hyfforddiant gweithredol fi trwy gyfnod pontio gyrfaol wrth imi symud i rôl uwch a mynd i'r afael â set wahanol iawn o amgylchiadau. Roedd yn cynnig lle diogel gydag unigolyn profiadol i ddatblygu fy null arwain a gwneud penderfyniadau.'*

Uwch Arweinydd, Llywodraeth Cymru

*'Mae Hyfforddi Gweithredol yn cynnig cyfle i mi gymryd cam yn ôl a myfyrio ar gyfuniad o faterion y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Yn ystod 2020 yn benodol, roedd cael cyfle i drafod yr ymateb brys ac ystyriaethau ôl-bandemig gyda fy hyfforddwr yn ddefnyddiol iawn.*

*Yn ei dro, cafodd hyn effaith gadarnhaol ar fy nhîm a'r sefydliad rwy'n ei arwain, gan fy mod wedi gallu cyflwyno meddyliau a syniadau ychwanegol i'r bwrdd. Rwy'n argymhell Hyfforddi Gweithredol i bawb sydd mewn rôl arwain ac mae'r gefnogaeth gan Academi Wales yn fudd ychwanegol – cyfuniad amhrisiadwy.'*

Uwch Arweinydd, Sefydliad y Trydydd Sector

*'Mae'r gefnogaeth yn bersonol yn werth chweil ac yn ddefnyddiol i mi a fy nhîm.*

*Mae wedi ein helpu i weithio gyda'n gilydd i nodi ein cryfderau a'n gwendidau unigol a chyfunol yn ogystal â'r broses ei hun gan gefnogi saib a myfyrio ar y cyd ar ffyrdd o weithio yn ystod cyfnod heriol iawn.*

*Mae'r mentora un i un wedi bod yn amhrisiadwy gyda llawer o'r tîm yn bachu ar y cyfle i archwilio eu gwerthusiadau 360° yn fwy manwl ac yn wir edrych am gyfleoedd datblygu unigol pellach yn sgil hynny.'*

Uwch Arweinydd, Heddlu De Cymru

*'Rwyf bob amser wedi bod ychydig yn amheugar ynghylch gwerth hyfforddi, rwy'n credu bod gen i arddull hyfforddi ac yn hyfforddi fy hun trwy sefyllfaoedd yn rheolaidd ac ar ôl cael hyfforddwr ychydig o weithiau o'r blaen, doeddwn i byth yn teimlo ei fod wedi fy helpu. Fodd bynnag, roedd yr Hyfforddwr hwn yn wahanol ac nid yw'n hawdd disgrifio'r hyn a roddodd i mi. Nid oedd bob amser yn gynnyrch nac yn gysyniad ond fe helpodd fi i feddwl yn wahanol, fe helpodd fi i weld yn glir beth oeddwn i'n teimlo a oedd yn faterion neu'n rhwystrau i'r hyn roeddwn i eisiau ei gyflawni ac fe helpodd fi i fapio'r hyn roeddwn i eisiau ei gyflawni.'*

Uwch Arweinydd, GIG Cymru

*'Rwy'n gweld bod y dull strwythuredig yn gweddu i'm harddull dysgu ac mae fy ystyriaeth o faterion yn fwy crwn o ganlyniad i ddadansoddi'r materion gyda'r Hyfforddwr. Mae'r Hyfforddwr hefyd yn sicrhau ei bod ar gael rhwng sesiynau hyfforddi, i drafod unrhyw faterion penodol a allai warantu ei barn. Rwy'n gweld hyn yn amhrisiadwy, a gallwn symud ar unwaith at y mater dan sylw oherwydd bod yr Hyfforddwr yn gwybod fy nghefnidir mor dda.'*

Uwch Arweinydd, GIG Cymru

# Gorffennaf – Medi 2020

## Tîm Rhaglen Graddedigion Cymru Gyfan

Ym mis Gorffennaf, mynychodd y graddedigion **ddigwyddiad dathlu rhithwir** a drefnwyd gan Dîm Graddedigion Academi Wales. Roedd y sesiwn yn gyfle i ddathlu a rhannu adborth o daith a llwyddiannau'r graddedigion. Roedd y sesiwn yn cynnwys sesiwn **Seicoleg Gadarnhaol**, i barhau â'u datblygiad proffesiynol parhaus – derbyniwyd adborth da.

Wrth symud ymlaen bydd Academi Wales yn parhau i gefnogi'r graddedigion trwy sefydlu alumni Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus.

Ar 28 a 29 Gorffennaf 2020, cynhaliodd Tîm Graddedigion Academi Wales gyfarfodydd rhanbarthol gydag arweinwyr graddedigion o sefydliadau sy'n lletya o wasanaethau cyhoeddus. Roedd hwn yn gyfle i gydweithwyr ar draws nifer o sefydliadau roi adborth amhrisiadwy i Academi Wales ynghylch y rhaglen raddedigion.

## Tîm Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan

Ym mis Medi dychwelodd ein rhaglen boblogaidd o ddigwyddiadau Dysgu a Rhannu a'n sesiwn rithwir gyntaf erioed. Cynhaliwyd y digwyddiad gan Sarah Lethbridge o Ysgol Fusnes Caerdydd a chanolbwyntiodd ar **Esblygiad Gwelliant Parhaus: Ble nesaf o ystyried COVID 19??**

Gwnaeth gogwydd amserol y sesiwn (sydd ar gael o hyd ar wefan Academi Wales) ddal diddordeb y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan ddenu 181 o gynrychiolwyr rhyfeddol. Archwiliodd y sesiwn ryngweithiol sut mae gwelliant wedi esblygu dros nifer o flynyddoedd. Helpodd Sarah gynrychiolwyr i ddiffinio cyfraniadau allweddol pob cam newydd o welliant, gan eu helpu i ddeall lle mae datblygiadau wedi digwydd a lle mae undod a symlrwydd. Daeth y sesiwn i ben gyda golwg ar yr iteriadau diweddaraf o arferion gwella gyda'r bwriad o ddeall i ba gyfeiriad y mae gwelliant yn debygol o fynd nesaf yn ein byd pandemig newydd.

Yn ystod y chwarter hwn gwelsom y lansiad diweddaraf yn ein cyfres Hau Hadau sy'n rhannu mewnwelediadau ar sut y gallem feithrin y

dirwedd wella newydd ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r argyfwng byd-eang a wynebwyd gennym yn 2020 yn ddigynsail yn ystod y cyfnod diweddar. Mae hanes wedi profi ein bod yn hynod ddyfeisgar ac arloesol yn ystod argyfwng oherwydd, yn ôl y dywediad, angen yw mam pob dyfais.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae sefydliadau, timau, unigolion a chymunedau sector gwirfoddol a chyhoeddus wedi ymateb i anghenion sy'n datblygu'n gyflym a heriau newydd gyda gwneud penderfyniadau cyflym a llai o fiwrocratiaeth. Mae hyn wedi arwain at:

- Mwy o gydweithredu rhwng gwasanaethau
- Ffyrdd arloesol a newydd o weithio i ddarparu gwasanaethau
- Digidio cyflym, a
- Chefnogaeth gymunedol newydd ac ailgyflenwi gwasanaethau, i enwi ond ychydig.

Roedd yr erthygl gyntaf yn cynnwys Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) a sut y gwnaethant gynnal ymgysylltiad staff yn ystod argyfwng, sef y pandemig cyfredol. Yn eu geiriau:

*"Mae hwn wedi bod yn newid seismig yn y gweithle ac o'r herwydd rydym yn canolbwyntio ar gefnogi ein staff yn rhagweithiol trwy ddarparu adnoddau bwrdd gwaith ffisegol a thrwy ddatblygu gweithlu a'n fframwaith llesiant".*

Mae'r astudiaeth achos NWIS ynghyd â theorïau a modelau ymgysylltu *Dan Pink – autonomy, mastery and purpose*, hefyd *David Zinger – People Artists* [www.academiwales.gov.wales/news/articles/a27e2d84-3235-4dc7-a598-b9daca502e32](http://www.academiwales.gov.wales/news/articles/a27e2d84-3235-4dc7-a598-b9daca502e32)

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, bydd Academi Wales mewn cydweithrediad ag Archwilio Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn parhau i 'hau hadau' i rannu mewnwelediadau ar sut y gallem feithrin y dirwedd newydd ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Yn bwysicach fyth, rydym yn gofyn i chi rannu eich dysg/arferion/llwyddiannau newydd sydd wedi digwydd yn ystod yr argyfwng.



Gadewch inni wybod pa feysydd newid y gallem eu cynnwys. Rhowch wybod i ni trwy gysylltu â [ContinuousImprovement@gov.wales](mailto:ContinuousImprovement@gov.wales)

## Tîm Datblygu Arweinyddiaeth a Newid

Arwain mewn Gwlad Ddwieithog

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu model newydd o arweinyddiaeth gwasanaeth cyhoeddus i Gymru, Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, dechreuodd Academi Wales y fenter 'Arwain mewn Gwlad Ddwieithog', gyda gweithdy undydd prawf o gysyniad i'w ddilyn gyda rhaglen fodiwlaid ar gyfer arweinwyr mewn sefydliadau yn dechrau ym mis Medi 2020.

Bydd y rhaglen yn archwilio gydag Arweinwyr yr hyn y byddai dod yn llysgennad dros ddiwylliant arweinyddiaeth sefydliadol y gall y Gymraeg ffynnu ynddo, yn ei olygu (yn unol â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru).

Bydd cyfranogwyr yn cael cyfle i ddysgu am y sefyllfa ieithyddol bresennol yng Nghymru, ac i archwilio eu syniadau a'u meddyliau eu hunain am ddwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg.

Gan ddefnyddio eu profiadau eu hunain a phrofiadau cyfranogwyr eraill, byddant yn gweithredu ar ba fuddion a heriau posibl a allai godi wrth geisio datblygu diwylliant cadarnhaol o ddwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg yn eu sefydliad.

Cafodd y Modiwl Rhagarweiniol ar gyfer y **Rhaglen Darpar Gyfarwyddwyr** ddechrau da gyda phob un o'r 25 cyfranogwr o bob rhan o 20 o sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn ymuno â ni trwy MS Teams.



Dewiswyd y cyfranogwyr o blith dros 130 o geisiadau, pob un yn dangos uchelgais glir i gyflawni ar gyfer eu cymunedau a'u cydweithwyr.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn gyda chyfraniadau gwadd gan Daniel Magde, Datblygiad Sefydliadol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar Ddynameg Grŵp a Phil Davies, Chwaraewr Rygbi ac Arweinydd o'r radd flaenaf yn Phil Davies Leadership, ar yr hyn a ddysgodd o'i siwrnai arweinyddiaeth ei hun.

Cynhaliwyd y sesiwn nesaf ym mis Tachwedd gyda gweithdy deuddydd ar Effaith Bersonol gyda Kathleen Sullivan o Chamberlain Dunn.

Yn y cyfamser, bydd y cyfranogwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o ddeinameg grŵp trwy ddechrau darn o arsylwi, myfyrio ac ymarfer hydredol dan arweiniad Daniel Magde.

## Tîm Llywodraethu ac Arweinyddiaeth y Bwrdd

Cyflwynodd y Tîm Llywodraethu ac Arweinyddiaeth y Bwrdd y gweithdy Byrddau Iach i 20 aelod bwrdd o BGLI Blaenau Gwent.

Mae gweithdy'r Byrddau Iach yn darparu trosolwg o'r heriau sy'n wynebu byrddau mewn gwasanaethau cyhoeddus, ymwybyddiaeth o fyrddau iach, sut olwg sydd arnyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud, ynghyd â dealltwriaeth o'r camau i wella perfformiad bwrdd.

Mae cyfranogwyr yn cael cyfle i hunanasesu perfformiad eu bwrdd eu hunain a nodi themâu allweddol i wella effeithiolrwydd a pherfformiad cyffredinol.

Mae'r cyfranogwyr yn derbyn rhestr wirio o gamau ymarferol i wella perfformiad y Bwrdd ynghyd â chopi o'r ymchwil sylfaenol ar Sefydliadau Perfformio Uchel.

Cynhaliodd y tîm **raglen Dau ar y Brig** ar gyfer yr uwch arweinyddiaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Gweler chwarter 1 am ragor o wybodaeth am ein Rhaglen Dau ar y Brig.

# Hydref – Rhagfyr 2020

## Talent ac Olyniaeth Tîm

### Rhith-gynhadledd Hyfforddi Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan 2020

Gan adeiladu ar lwyddiant blynyddoedd blaenorol, llwyfannodd Academi Wales ei **Rhith-gynhadledd Hyfforddi Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan** ar 19 Tachwedd 2020.

Am y tro cyntaf, cynhaliwyd y digwyddiad ar-lein ac roedd y mynychwyr yn cynnwys 250 o ymarferwyr hyfforddi a mentora ffurfiol ac anffurfiol o 92 o sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus a thrydydd sector yng Nghymru. Y nifer fwyaf o gynrychiolwyr o bell ffordd ar gyfer un o'n digwyddiadau hyfforddi.

Roedd y thema '*Hyfforddi ar gyfer y Normal Newydd – yn helpu unigolion i ffynnu*' yn adlewyrchu'r gofynion rydyn ni i gyd nawr yn eu hwynebu. Cynlluniwyd y rhaglen gan gydnabod pwysigrwydd hyfforddi yn yr amseroedd hyn o newid ac ansicrwydd, sut mae hyfforddi yn cynnig cefnogaeth y mae mawr ei hangen ar unigolion a'u sefydliadau, sut mae ganddo ran hanfodol i'w chwarae wrth amsugno pryderon personol a sut mae'n cefnogi ochr ddynol yr argyfwng yr ydym yn ei gael ein hunain ynddo.

Canolbwyntiodd y gynhadledd ar ddatblygu sgiliau ac offer ymarferol y gellir eu defnyddio ar gyfer twf personol i gefnogi datblygiad eraill, yn benodol gyda hyfforddwyr a mentoriaid. Mae llawer o'r cynrychiolwyr yn aelodau-hyfforddwyr o Rwydwaith Hyfforddi Cymru Gyfan. Ymhlith y prif siaradwyr oedd Dr Emma Donaldson-Feilder yn rhannu ei meddyliau ar '*The power of relational mindfulness to create safety and deepen insights in coaching relationships*' a Dr Andy Cope, a roddodd fewnwelediadau i '*The Art of Being Brilliant*'.



Emma Donaldson-Feilder



Dr Andy Cope

Dangosodd adborth bod y digwyddiad wedi cael croeso cynnes ac mae'r gynhadledd hyfforddi flynyddol bellach wedi hen sefydlu fel un o'r digwyddiadau proffil uchel yn nyddiadur gweithgareddau blynyddol Academi Wales.

## Tîm Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Roedd y Tîm Graddedigion yn falch iawn o ail-lansio **Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan: Rhaglen i Raddedigion 2022** i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a thrydydd sector, gan wahodd mynegiadau o ddi-ddordeb gan sefydliadau posibl. Derbyniwyd ymateb gwych gan ystod o sefydliadau, gyda sefydliadau sy'n lletya yn ymrwymo i ddatblygu cynnig ffurfiol yn diffinio'r rôl y bydd y myfyriwr graddedig yn ei chyflawni tra ar leoliad gyda nhw.

Cynlluniodd y tîm i ddarparu sesiynau gwybodaeth rhanbarthol i sefydliadau sy'n lletya eu mynychu er mwyn cefnogi'r sefydliadau i greu eu cynigion ffurfiol ar gyfer y rhaglenni. Mae angen i'r sefydliadau baratoi cynigion sy'n amlinellu pethau fel sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd, cefnogi'r graddedigion ac amlinelliadau o rolau swyddi.

## Tîm Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan

### Dysgu a Rhannu – Cymunedau Arloesi Economi Gylchol

Digwyddodd y Digwyddiad Dysgu a Rhannu **Cymunedau Arloesi Economi Gylchol** ar 27 Tachwedd 2020 ac fe'i cyflwynwyd gan Cymunedau Arloesi Economi Gylchol (CEIC), Tony Walpole a Gary Burnett. Rhoddodd y sesiwn drosolwg o'r rhaglen 10 mis ar gyfer sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, a chyflwynodd gyfranogwyr i'r rhaglen CEIC, Offer Gwelliant Parhaus, a dull CEIC o addysgu/hwyluso.

Roedd y canlyniadau dysgu ar gyfer cynrychiolwyr yn cynnwys:

- Gwybodaeth well am raglen CEIC
- Gwybodaeth well am offeryn CI (5 Pam)

Adborth cynrychiolwyr:

*“Rwy'n anfwriadol wedi bod yn gweithio fel hyn i ddatrys materion ond gallant nawr ymchwilio i'r fethodoleg ymhellach i weithredu mwy o newid – gyda chymunedau, gobeithio. Cyflwyniad a rhyngweithio rhagorol.”*

### Dysgu a Rhannu – Dryswch Gwerth

Cynhaliwyd y Digwyddiad Dysgu a Rhannu **Dryswch Gwerth** ar 1 Rhagfyr 2020. Heriodd y sesiwn y dull traddodiadol o gymhwyso meddwl darbodus/gwelliant parhaus mewn gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n galw am ddadl ar ddatblygu diffiniad newydd o ddarbodus ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Cyflwynwyd y sesiwn gan Simon Elias, Cyfarwyddwr, Lean Competency Services Ltd, deiliad trwydded Prifysgol Caerdydd i weithredu a datblygu'r System Cymhwysedd Darbodus, a ddatblygwyd yn wreiddiol yn y Ganolfan Ymchwil Menter Ddarbodus (LERC), Prifysgol Caerdydd.

Canlyniadau dysgu:

- Deall sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn wahanol i wasanaethau preifat;
- Gwerthfawrogi natur gwerth cyhoeddus; ac
- Yn gallu herio ffordd o feddwl sy'n bodoli eisoes a dechrau llunio modelau a dulliau mwy effeithiol.

### Dysgu a Rhannu – Menopos yn y Gweithle

Mae ein Digwyddiad Dysgu a Rhannu **Menopos yn y Gweithle** wedi bod yn hynod boblogaidd, gyda lleoedd yn aml yn cael eu llenwi mewn munudau. Cyflwynwyd y sesiynau gan Jayne Woodman, sylfaenydd y Tîm Menopos. Yng Nghymru, mae 60-70% o fenywod rhwng 50 a 64 oed mewn cyflogaeth, sy'n cynnwys bron i hanner y gweithlu (FTWW, 2019). Mae'r sesiynau'n gofyn cwestiynau i'w hystyried yn eich sefydliad eich hun: Nifer y gweithwyr benywaidd ym mhob ystod oedran? Staff 40-45 oed? Lefelau salwch cyfredol ym mhob ystod oedran? Beth yw'r rhesymau salwch a nodwyd? Roedd y sesiynau

hyn yn ymdrin â symptomau corfforol a seicolegol menywod sy'n profi'r menopos; y baich economaidd a chymdeithasol sylweddol ar fenywod 45 oed a hŷn.



Mae dealltwriaeth a rheolaeth gynyddol o symptomau yn cefnogi:

- Lleihau absenoldeb salwch
- Lleihau trosiant llafur
- Cynyddu cynhyrchiant
- Cynyddu morâl ac ymgysylltu
- Cadw'r buddsoddiad a wnaed yn y gweithiwr
- Hyrwyddo gweithlu amrywiol a chynhwysol

Adborth cynrychiolwyr:

*“Cyflwyniad gwych. Roedd y siaradwr yn wybodus am ei phwnc ac yn ei gyflwyno gyda dealltwriaeth ac eglurder. Diolch.”*

### Tîm Datblygu Arweinyddiaeth a Newid

#### Arwain mewn Gwlad Ddwieithog: Adolygiad o Gam 1

Roedd y rhaglen unigryw hon yn gyfle i gyfranogwyr lunio cynllun a ffordd o gyflwyno'r hyn a fydd, gobeithio, yn rhaglen genedlaethol reolaidd i lawer mwy o arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ei chyrchu. Gwerthuswyd pob modiwl wrth iddo gael ei gyflwyno gyda'r ddau fodiwl olaf wedi'u haddasu yn unol â'r adborth gan gyfranogwyr. Gwerthuswyd y profiad rhaglen llawn ar y diwedd.



Y dysg mwyaf arwyddocaol oedd ennill calonnau a meddyliau cydweithwyr sy'n gweithio tuag at ddiwylliant cadarnhaol a chynhwysol o ddwyieithrwydd sy'n bwysig i lwyddiant y rhaglen o fewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae llawer o sefydliadau wedi gwneud cynnydd da tuag at ddiwylliant dwyieithog, tra bod eraill yn teimlo bod ganddyn nhw dipyn o ffordd i fynd gyda'u rhaglenni amrywiaeth, cynhwysiant a newid diwylliannol.

Mae Cymuned Ymarfer yn cael ei datblygu i gynorthwyo cyfranogwyr i weithredu eu cynlluniau ar ôl y rhaglen a bydd cefnogaeth ychwanegol ar gael yn eu sefydliadau fel y bo'n briodol. Bydd cyfranogwyr Cam 2 yn cychwyn ar eu taith yn 2021, gan adeiladu ar lwyddiant Cam 1.

### Gweithdai Rhithwir

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi gweithio'n galed yn ystod y misoedd diwethaf i ddatblygu ein hamserlen o weithdai i'w galluogi i gael eu cyflwyno yn yr amgylchedd rhithwir.


Mae galw mawr am y gweithdai hyn gan ein cynulleidfa gwasanaeth cyhoeddus ac roedd y gallu i'w darparu fwy neu lai yn hanfodol i gynnal rhwydweithiau datblygiad personol yn ystod cyfnodau clo.

Bellach mae gennym gyfres o weithdai ar gael yn yr amgylchedd rhithwir gan gynnwys **7 Arfer Pobl Hynod Effeithiol, Meithrin Perthnasoedd Effeithiol, Ymddiriedaeth, Arwain ar Iâ, Seicoleg Gadarnhaol a Deallusrwydd Emosiynol.**

## Tîm Llywodraethu ac Arweinyddiaeth y Bwrdd

### Rhaglen Sefydlu Aelodau Annibynnol y Bwrdd – GIG Cymru

Fe'i cynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2020. Roedd y rhaglen ryngweithiol rithwir diwrnod a hanner o hyd i gefnogi Aelodau Annibynnol sydd newydd eu penodi ac yn ddiweddar i fodloni heriau penodol eu rôl a chyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.




Darparodd y rhaglen ryngweithiol gyfleoedd i Aelodau Annibynnol ymgysylltu â siaradwyr a chydweithwyr ar draws sector cyhoeddus Cymru. Cafodd y cynrychiolwyr y cyfle i ymuno â Set Dysgu Gweithredol wedi'i hwyluso ar ôl rhaglen i helpu i wreiddio eu dysgu a darparu cyfleoedd pellach i drafod archwilio agweddau allweddol ar eu rolau.

### Rhaglen Arweinyddiaeth ar gyfer Aelodau Etholedig yng Nghymru

Ailgynlluniwyd trydydd modiwl a modiwl terfynol y rhaglen i Aelodau Etholedig ym mis Hydref 2020. Canolbwyntiodd y modiwl hwn ar sut roedd Aelodau Etholedig "Yn dod yn arweinwyr mwy effeithiol yn eu cymuned" ac ymdriniodd â'r pynciau allweddol canlynol:

- Deall tensiynau symudol a deinamig rhwng agweddau lleol a strategol ar arweinyddiaeth gymunedol;
- Ymgysylltu â syniadau 'Arweinyddiaeth Lle' a gallu defnyddio strategaethau dylanwadu yn effeithiol;
- Deall tirwedd esblygol; partneriaethau, cydweithredu a darparu/comisiynu gwasanaethau ar y cyd a sut mae hyn yn berthnasol yn eu lleoliadau gwleidyddol a chymunedol lleol;
- Archwilio rôl cynghorwyr wrth feithrin cynhwysiant, cydlyniant cymunedol ac amrywiaeth.



# Ionawr – Mawrth 2021

## Tîm Talent ac Olyniaeth

### Ysgol Aeaf Rithwir Arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021

Yn dathlu ei 10fed flwyddyn yn olynol cafodd **Ysgol Aeaf Arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan** ei chynnal yn rhithwir am y tro cyntaf rhwng 3-4 Chwefror 2021.

Gan adeiladu ar ei llwyddiant ers 2011, rydym wedi cynllunio'r rhaglen yn benodol i ddiwallu anghenion datblygu allweddol uwch arweinwyr Cymru, a'r rheini sy'n gweithio yn nhair haen uchaf gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol Cymru.

Thema'r Ysgol Aeaf oedd **Arwain i Bawb – Arwain ar adegau o Gymhlethdod ac Ansicrwydd**. Roedd yn gyfle i uwch arweinwyr ganolbwyntio ar ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a beth oedd hyn yn ei olygu o ran arweinyddiaeth argyfwng a newid.

Clywodd y cynrychiolwyr gan amrywiaeth o siaradwyr ysbrydoledig a nodedig gan gynnwys Emmanuel Gobillot, y Farwnes Casey o Blackstock DBE CB, yr Athro Uzo Iwobi OBE, Lefftenant-Cyrnol James Green, a Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru.



Roedd y mynychwyr yn cynnwys 89 o uwch arweinwyr/swyddogion gweithredol ledled sectorau cyhoeddus a thrydydd sector Cymru a oedd fwy na dwbl nifer y cynrychiolwyr arferol.

Roedd adborth y cynrychiolwyr yn cynnwys:

*“Dau ddiwrnod rhagorol a phryfoclyd, yn ymdrin â chyfoeth o wahanol bynciau i'n galluogi i ddod yn arweinwyr gwell ledled Cymru.”*

*“Rwyf wedi mwynhau'n ofnadwy, gan deimlo'n lwcus ac yn falch o'r cyfle i fynychu a gwrandao ar siaradwyr mor dalentog – am ddim. Diolch yn fawr am y cyfle”*


*“Pryfoclyd, pwerus ac yn sicrhau rhannu profiadau ag arweinwyr eraill.”*

## Tîm Rhaglen Graddedigion Cymru Gyfan

Cyflwynodd Tîm Rhaglen Graddedigion Cymru Gyfan **dair sesiwn gweithgor rhanbarthol**

(Gogledd, Gorllewin a Chanolbarth a De Ddwyrain Cymru) ym mis Ionawr a mis Chwefror i ddarparu sefydliadau 'lletya' Rhaglen Graddedigion Cymru Gyfan. Roedd y sesiynau rhithwir hyn yn cynnwys cefnogi sefydliadau trwy rannu gwybodaeth am y rhaglen Graddedigion; mae'r broses ar gyfer dod yn sefydliad sy'n lletya a rhoi cyfle i sefydliadau gwrdd ag eraill yn eu rhanbarth yn dechrau archwilio cyfleoedd i ffurfio grwpiau clwstwr a rolau posibl i raddedigion.

Yn dilyn y gweithdy rhanbarthol, gweithiodd y Tîm Graddedigion yn agos gyda sefydliadau i'w cefnogi i ddatblygu eu cynigion.



## Tîm Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan

### Adroddiad Ymchwil (cam 1) Effaith Egwyddorion Rheoli Darbodus mewn Lleoliadau Addysgol. (Cam 1 – Adolygiad a Methodoleg Llenyddiaeth)

Yn chwarter 4, cychwynnwyd ein prosiect ymchwil (cam 1 wedi'i gwblhau eisoes) gan ganolbwyntio ar ddeall yr effaith wrth ddefnyddio egwyddorion rheoli darbodus mewn lleoliadau addysgol.

#### Bydd ein hymchwil yn ystyried y canlynol: 1) Pa effaith y mae darbodus wedi'i chael ar addysgu a dysgu? a 2) Pa effaith y mae darbodus wedi'i chael ar lesiant staff a'r amgylchedd?

Cynlluniwyd yr astudiaeth hon i edrych ar bwnc egwyddorion rheoli darbodus mewn addysg, i ddarganfod yr effaith ar ddeilliannau disgyblion a llesiant athrawon. Mae'n ystyried pob un o'r tair ysgol (Ysgol Gwynedd; CP Sandycroft ac Ysgol Bryn Deva) sydd wedi mabwysiadu'r egwyddorion hyn o fewn eu paradeimau rheoli. Mae'r pwnc yn arbennig o berthnasol i agenda diwygio addysg Cymru, sy'n rhoi pwyslais mawr ar ddatrys problemau ar y cyd a dysgu ar sail tystiolaeth.

#### Digwyddiad Dysgu a Rhannu – Pam Trafod y Menopos yn y Gwaith?

Menywod dros 50 oed yw'r grŵp sy'n tyfu cyflymaf yng ngweithlu'r DU. Bydd y mwyafrif o fenywod yn profi symptomau menopos. Gall rhai o'r rhain fod yn eithaf difrifol a chael effaith sylweddol ar weithgareddau bob dydd.



Mae cyflogwyr arfer gorau yn ymgysylltu ag ymwybyddiaeth a hyfforddiant menopos oherwydd eu bod yn poeni am lesiant gweithwyr; yn gyfnewid, mae hyn yn helpu gweithwyr i wneud eu gorau glas yn y gweithle felly'n cynnal cynhyrchiant, teyrngarwch a chadw talent.

Denodd y gweithdy 30 o gynrychiolwyr a ganolbwyntiodd yn bennaf ar wneud menywod cyn y menopos yn ymwybodol o symptomau posibl a gallai cynnig cyfeirio am help fod o gymorth i fenywod ymdopi'n well, a thrwy hynny helpu i wneud effaith y menopos yn llai iddynt yn bersonol ac yn broffesiynol.

Mwy o fanylion am ddiben y sesiwn:

- Deall effaith y menopos ac o bosibl lleihau materion sy'n gysylltiedig â menopos;
- Cynnal cynhyrchiant, cadw talent, deall a chynyddu teyrngarwch;
- Deall sut i helpu menywod o oedran menopos;
- Cadw ar ochr gywir cyfraith cyflogaeth y DU;
- Sgyrsiau menopos Arweinydd Tîm/Rheolwr; a
- Chyfeirio.

## Tîm Datblygu Arweinyddiaeth a Newid

Ym mis Chwefror 2021, hwylusodd Academi Wales **Melin Draffod Rithwir Bydwreigiaeth Cymru Gyfan.**

Daeth y digwyddiad diwrnod cyfan cenedlaethol ar-lein hwn ag uwch arweinwyr bydwreigiaeth a gweithwyr proffesiynol ynghyd o fyrddau iechyd, sefydliadau academiaidd, Llywodraeth Cymru a Choleg Brenhinol y Bydwreigedd a darparu 'sbringfwrdd' i ragweld a thrafod dyfodol gofal mamolaeth a gwasanaethau bydwreigiaeth yng Nghymru.

Cynlluniwyd cwestiynau 'Melin Draffod' yn unol ag egwyddorion arweinyddiaeth 'True North' a, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau hwyluso, dysgu, trafodaeth grŵp ac adborth, cafodd cyfranogwyr eu cymell a'u hysbrydoli i edrych ar wersi'r gorffennol a'r presennol i helpu i lywio'r dyfodol.

Gan gydnabod yr heriau a'r cyfleoedd sydd wedi codi yn ystod pandemig COVID-19, dathlodd uwch arweinwyr bydwreigiaeth a gweithwyr proffesiynol eu llwyddiannau a nodi rhai o'r pethau y byddent yn cael gwared ohonynt yn ogystal â'u cadw wrth iddynt symud ymlaen i gynllunio, trefnu a darparu gofal mamolaeth a darpariaeth gwasanaeth bydwreigiaeth diogel yng Nghymru.





Gan ystyried effaith y digwyddiad, dywedodd Karen Jewell, Swyddog Nyrsio Llywodraeth Cymru (Iechyd Atgenhedlol Merched):

*“Fe wnaeth y cyfle i hwyluso gan Academi Wales a sgil Ian Govier wrth ymgysylltu â'r gynulleidfa alluogi cyfranogwyr i gymryd golwg gyffredinol o'r flwyddyn yr oeddent newydd ei phrofi a sut mae hyn yn effeithio ar gynlluniau ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yn y dyfodol. Hoffwn ddiolch i Academi Wales am eu cefnogaeth yn y digwyddiad hwn ac, yn dilyn yr adborth, byddem yn argymhell y math hwn o hwyluso allanol i roi mwy o ffocws a mewnwleddiad arweinyddiaeth ysbrydoledig”.*

## Warriors for the Human Spirit

Wrth i'r byd barhau i ymateb i'r pandemig Coronafeirws, roedd yn bwysicach nag erioed i arweinwyr gamu tuag at yr heriau roeddent yn eu hwynebu a chyflawni'r canlyniadau yr oeddent eisiau eu gweld. Pan fydd graddfa a chymhlethdod yr heriau'n teimlo'n enfawr, gall arweinwyr deimlo'n flinedig ac wedi'u gorlethu. Roeddem yn gwybod nad oedd gwneud mwy o'r un peth ond yn gynt yn mynd i gyflawni'r canlyniadau yr oeddem eisiau eu gweld. Sut mae arweinwyr yn newid eu patrymau ymddygiad sydd â gwreiddiau dwfn? Sut y gallant ddefnyddio eu pŵer a'u dylanwad i wasanaethu eu cymunedau go iawn?



Ym mis Ionawr 2021 croesawyd Dr Margaret Wheatley yn ôl i Academi Wales, trwy raglen ar-lein **Warriors for the Human Spirit** a gynigiodd gyfle gwych i glywed yn uniongyrchol gan arbenigwr ymddygiad arweinyddiaeth o'r radd flaenaf.

Cynlluniwyd **Warriors for the Human Spirit** i gefnogi arweinwyr i ddatblygu set newydd o sgiliau gan gynnwys lefel o feistrolaeth bersonol i arwain gyda mewnwleddiad a thosturi hyd yn oed wrth i bethau dyfu'n fwy ansicr a phryderus. Mae gwaith Dr Wheatley wedi dyfnhau i argyhoeddiad cadarn bod yn rhaid i arweinwyr ddysgu sut i alw am haelioni cynhenid, creadigrwydd ac angen am gymuned.

Cawsom 30 o Ryfelwyr fel rhan o'r daith gyntaf ac i roi'r cyfle gorau i'w hunain glywed, gwnaethant ymarfer 'Warrior Mindfulness' gyda Moira Morgan cyn pob sesiwn a oedd yn eu galluogi i: dawelu 'swân' y meddwl fel y gallent feddwl yn gliriach, bod yn fwy ymwybodol o emosiynau cryf a dewis sut i'w defnyddio a bod yn fwy tosturiol i'w hunan ac eraill. Yn bwysicaf oll, fe helpodd arweinwyr i wybod pwy oeddent mewn gwirionedd – bod dynol, yn haeddu urddas a pharch, ac felly'n ein galluogi i gynnig yr un peth i eraill.

## Llywodraethu ac Arweinyddiaeth y Bwrdd

### Rhaglen Sefydlu Bwrdd DHCW

Fe'i cynhaliwyd ym mis Mawrth 2021. Cynlluniwyd y rhaglen ryngweithiol rithwir ddeuddydd hon i gefnogi **Bwrdd Digidol a Gofal Iechyd Cymru** sydd newydd ei greu wrth fodloni heriau penodol eu rolau a chyflawni'r blaenoriaethau digidol ar gyfer sefydliadau gofal iechyd yng Nghymru.

Roedd y rhaglen ryngweithiol yn cynnig cyfleoedd i aelodau'r Bwrdd ymgysylltu â siaradwyr a chydweithwyr o bob rhan o sector cyhoeddus Cymru. Ar ôl y rhaglen, cynigiwyd cyfle i Aelodau'r Bwrdd ymgysylltu â Set Dysgu Gweithredol wedi'i hwyluso i helpu i wreiddio eu dysg a darparu cyfleoedd pellach i drafod ac archwilio agweddau allweddol ar eu rolau.

